

HORIZON

Archwilio
goblygiadau Brexit
ar amaethyddiaeth
a garddwriaeth yng
Nghymru



CYNNWYS

- 3 Cyflwyniad
- 4 Cefndir
- 5 Trosolwg ar y diwydiant
 - 6 Cig coch
 - 9 Llaeth
- 10 Tatws
- 11 Garddwriaeth
- 12 Ŷd
- 13 Polisi amaethyddol
- 15 Llafur
- 16 Rheoleiddio
- 17 Senarios Brexit a Chymru
- 23 Cau pen y mwdwl
- 24 Pecyn Cymorth
- 27 Atodiad

HORIZON

CYFLWYNIAD

Yn seiliedig ar rifynnau blaenorol o Horizon, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar beth fydd Brexit yn ei olygu i amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru. Lluniwyd yr adroddiad hwn ar y cyd â Hybu Cig Cymru (HCC) ac mae'n asesu'r effaith, y risgiau a'r heriau posibl yn wyneb Brexit.

Mae llawer o ansicrwydd ynghylch Brexit o du'r sector amaethyddol a'r gadwyn cyflenwi bwyd ehangach. Er nad ydym yn gwybod y manylion i gyd eto, gallwn adnabod y meysydd lle bydd Cymru yn fwy agored ac yn llai agored i heriau Brexit o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i dri maes yn bennaf:

1. Masnach ryngwladol

Bydd Brexit yn esgor ar risgiau a chyfleoedd i amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru. Er bod Cymru yn allforio cyfran lai i'r UE na rhannau eraill o'r DU, bydd y berthynas fasnachu rhwng y DU a'r UE yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol ar y diwydiant.

Yn fwy na hynny, mae'n bosibl y bydd polisi masnachu Llywodraeth y DU yn y dyfodol yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer allforio bwyd a diod o Gymru, ond ar yr un pryd yn golygu bod y diwydiant yn wynebu mwy o gystadleuaeth wrth i gynnyrch rhatach gael ei fewnforio.

2. Mynediad at weithwyr yn mudo o'r UE

Bydd cyfyngiadau ar fewnfudo yn effeithio ar y sector prosesu bwyd o ran gweithwyr medrus a gweithwyr heb sgiliau; gallai prinder gweithwyr fod yn fygythiad i ddyfodol rhai cyfleusterau prosesu yng Nghymru.

3. Cymorth amaethyddol

Mae'r dystiolaeth yn glir bod cymorth i ffermwyr yn hanfodol i hyfywedd ariannol presennol llawer o fusnesau fferm yng Nghymru. Nid yw'n glir sut bydd y polisi amaethyddol yn newid ar ôl Brexit, ond byddai amaethyddiaeth yng Nghymru yn agored i risg o ostyngiadau mewn lefelau cymorth uniongyrchol. Er nad yw'n glir eto beth fydd graddfa'r amlen ariannol fydd ar gael ar gyfer darparu cymorth yng Nghymru, bydd sicrhau hyfywedd ariannol tra'n annog diwydiant mwy cynhyrchiol yn her amlwg i wneuthurwyr polisi yng Nghymru yn y tymor byr/canolig (hyd at 5 mlynedd) ac yn y tymor hir (5 - 10 mlynedd).

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod angen i'r diwydiant amaethyddol, a rhannau eraill o'r gadwyn gyflenwi, ddechrau paratoi ar gyfer Brexit nawr. Er bod llawer o'r ffactorau sy'n ymwneud â Brexit y tu hwnt i reolaeth y ffermwr, mae rhai pethau y gellid eu gwneud er mwyn paratoi. Ymhlith y rhain, mae gwella cystadleurwydd busnes yn allweddol, a bydd AHDB a HCC yn cynorthwyo trethdalwyr Cymru yn hyn o beth.




CEFNDIR

Mae'r diwydiant bwyd a diod yn rhan allweddol o economi Cymru, yn cyflogi dros 240,000 o bobl ac yn cynhyrchu £19.1 biliwn o drosiant yn 2016 (Bwyd a Diod Cymru). Yn economaidd, mae amaethyddiaeth yn sector cymharol fach. Mae gwerth ychwanegol gros (GVA) amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota gyda'i gilydd yn £435 miliwn, sy'n cynrychioli prin 0.7 y cant o GVA Cymru. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cefnogi sectorau gweithgynhyrchu bwyd a diod a gwasanaethau bwyd/llety sy'n cyfrannu 2.4 a 3.2 y cant yn eu tro.¹

Mewn adroddiad diweddar,² tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at nifer o heriau i'r sector amaethyddol, yn cynnwys:

- Y nifer fawr o ffermydd bach, gyda 21,200 fferm (86 y cant o ffermydd) yn cynhyrchu 29 y cant o'r allbwn amaethyddol
- Ansawdd y tir sy'n cael ei ffermio, gyda 75 y cant o dir amaethyddol yng Nghymru yn y categori dan anfantais (o'i gymharu â dim ond 17 y cant yn Lloegr)³
- Pellter ffermydd o'r farchnad, sy'n gallu golygu bod y ffermwr yn cael prisiau is. Er enghraifft, mae prisiau llaeth yng Nghymru rhwng 1–2 ceiniog y litr yn is na'r cyfartaledd yn y DU.

O'r herwydd, er bod gan Gymru rai ffermydd ac ardaloedd cynhyrchiol iawn, wrth ddadansoddi'r ardal amaethyddol gyfan, mae'r incwm sy'n cael ei gynhyrchu fesul hectar yn is na rhannau eraill o'r DU.



Ffigur 1. Cyfanswm incwm o ffermio (fesul ha)

Ffynhonnell: Defra, cyfartaledd tair blynedd (2014–2016)

¹⁻² Crynodeb o Weithdai Cynllunio Senario Gadael yr UE, Llywodraeth Cymru 2018

³ <http://gov.wales/docs/statistics/2016/161213-welsh-agricultural-statistics-2015-ency.pdf>

⁴ Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-exports/?lang=en>

⁵ http://www.jillevans.net/agriculture_eu_factsheet.pdf

TROSOLWG AR Y DIWYDIANT


Mewn adroddiadau Horizon blaenorol, mae AHDB wedi asesu'r rôl mae'r UE yn ei chwarae wrth negodi masnach.

Strategaeth fasnach Brexit Llywodraeth y DU yw gadael yr undeb tollau, cytuno ar Gytundeb Masnach Rydd cynhwysfawr gyda'r UE ac adennill rheolaeth dros bolisi masnachu domestig. Felly, cwestiwn allweddol fydd i ba raddau y bydd polisi fasnach Llywodraeth y DU yn cefnogi buddiannau hirdymor bwyd a diod Cymru.

Mae'n werth nodi mai gweddill y DU yw partner masnachu mwyaf Cymru o ran nwyddau a gwasanaethau. Roedd cyfanswm gwerth allforion i Gymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben Mehefin 2017 yn £15.9 biliwn, a oedd £2,391 miliwn yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.⁴ O ran masnachu y tu allan i'r DU, yr UE yw'r farchnad ryngwladol fwyaf ar gyfer allforion o Gymru. Roedd allforio i'r UE yn cyfrif am bron 60 y cant o holl allforion Cymru, o'i gymharu â 49 ar gyfer y DU i gyd.

Mae'r data dros-dro ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2016 yn dangos bod gwerth allforion bwyd a diod o Gymru wedi codi i £337.3 miliwn, cynnydd o 20 y cant ar y flwyddyn flaenorol. Tra bod yr UE yn dal i fod ar y blaen o ran derbyn allforion bwyd a diod o Gymru, gan gyfrif am 72.4 y cant o allforion, gwelwyd cynnydd mewn allforio i'r Dwyrain Canol ac i Ogledd Affrica.

Mae mynediad at farchnadoedd yr UE yn bwysig i'r diwydiant bwyd a diod, yn enwedig cig eidion a chig oen. Mae oddeutu 35–40 y cant o'r cig oen a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei allforio bob blwyddyn, ac o'r ffigwr hwn byddai dros 90 y cant yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd. Er ei fod yn llai o ran cyfaint absoliwt, mae dros 90 y cant o'r cig eidion sy'n cael ei allforio o Gymru a 95 y cant o'r llaeth yn mynd i wledydd yn yr UE.⁵



Ffigur 2. Cyrchfannau allforion bwyd a diod o Gymru yn ôl gwerth 2015

Nodyn: Mae'n bosibl na fydd y ffigurau'n gwneud cyfanswm o 100 y cant oherwydd talgrynnu

Cig coch

Marchnata Brand Cymru

Mae gan Gymru 14 categori bwyd a diod gyda statws gwarchoddedig yr UE, yn cynnwys:

- Cig Eidion o Gymru (PGI)
- Cig Oen o Gymru (PGI)
- Porc pedigrî o Gymru wedi'i fagu'n draddodiadol (TSG)
- Tatws cynnar Sir Benfro (PGI)
- Ham Sir Gâr (PGI)
- Caws Caerffili Traddodiadol o Gymru (PDO)

Mae HCC o'r farn bod PGI yn hynod o bwysig yn economaidd i ddiwydiant cig coch Cymru, oherwydd ei fod yn nodi tarddiad a rhinweddau unigryw Cig Oen a Chig Eidion o Gymru.⁶

Gweddill y DU yw'r farchnad fwyaf ar gyfer cig coch o Gymru, gyda chig oen a chig eidion yn cyfrif am dros ddwy ran o dair (£468 miliwn) o werthiant yn ôl gwerth yn 2016.⁷ Caiff tua 82 y cant o'r cig eidion a gynhyrchir yng Nghymru ei ddsbarthu i weddill y DU, gyda thua 13 y cant yn cael ei allforio. Caiff tua 60 y cant o'r cig oen a gynhyrchir yng Nghymru ei fwyta yn rhywle arall ym Mhrydain Fawr. Mae tua 35 y cant yn cael ei allforio.

Mae allforio cig oen a chig eidion yn rhyngwladol yn cyfrif am 24 y cant o werthiant yn ôl gwerth. Felly, mae marchnadoedd allforio byd-eang yn hollbwysig ac yn chwarae rôl allweddol wrth gydbwysu'r carcass cyfan, gan alluogi proseswyr i ddarganfod marchnadoedd am gynnyrch sy'n anoddach i'w werthu yn y DU. Yr UE yw'r prif gyrchfan ar gyfer yr allforion hyn.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar werthoedd allbwn amaethyddol ac eithrio'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu'n ddiweddarach yn y gadwyn gyflenwi. Mae diwydiant lladd-dai cig coch wedi wynebu anawsterau ers blynnyddoedd lawer wrth i'r proffidioldeb amrywio, ac weithiau mae'r elw'n fach iawn. Mae'r sector cyfan yn dioddef o dan-fuddsoddiad, yn enwedig ymysg busnesau bach a chanolig, ac mae pwysau cynyddol ar yr elw.⁸

Tabl 1. Dosbarthiad gwerthiant cig coch o Gymru yn 2016

	Cymru		Gweddill y DU		Allforio	
	Gwerth (£m)	% yn ôl gwerth	Gwerth (£m)	% yn ôl gwerth	Gwerth (£m)	% yn ôl gwerth
Cig Eidion	19	5	308	82	49	13
Cig defaid	13	5	160	60	94	35
Cyfanswm cig coch	32	5	468	71	143	24

Ffynhonnell: HCC – Asesiad o Gapasiti yn y Diwydiant Lladd Cig Coch yng Nghymru, Mawrth 2016



⁶ http://hccmpw.org.uk/marketing/pgi_welsh_lamb_beef/

⁷ Asesiad o Gapasiti yn y Diwydiant Lladd Cig Coch yng Nghymru, March 2016, Hybu Cig Cymru (HCC)

⁸ Capasiti yn y Diwydiant Lladd Cig Coch yng Nghymru, Mawrth 2016

Ar hyn o bryd mae 19 llad-dy cig coch yng Nghymru, gyda 16 yn lladd gwartheg, 19 yn lladd defaid a 12 yn lladd moch. Mae nifer y lladd-dai yng Nghymru wedi gostwng yn raddol, ac yn y ddwy flynedd diwethaf, mae tri llad-dy wedi cau/rhoi'r gorau i weithredu yng Nghymru. Mae'r sectorau lladd gwartheg a defaid yn cael eu dominyddu gan ladd-dai mawr, tra bod y sector lladd moch yn frith o ladd-dai bach a chanolig.⁹

Mae llawer iawn o symud gwartheg, defaid a moch byw, a chynnyrch cig, o fewn Cymru a dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Caiff da byw ei symud at ddibenion pori a thewhau, yn ogystal ag ar gyfer eu gwerthu a'u lladd. Mae cynnyrch cig yn cael ei symud er mwyn ei dorri, ei bacio, ei ddsbarthu a'i werthu. Mae cynnyrch gwastraff hefyd yn cael ei symud er mwyn ei waredu.¹⁰

Amcangyfrifir bod capasiti cyfun y lladd-dai sy'n lladd gwartheg yn 17 y cant, defaid yn 41-72 y cant, a moch yn 32 y cant yn fwy na'r defnydd presennol yng Nghymru. Bydd yr heriau a wynebir gan y diwydiant yn cael effaith sylweddol ar gadernid, perfformiad a phroffidioldeb y sector i'r dyfodol. Mae'r ffactorau hyn yn codi pryderon am hyfywedd hirdymor llawer o ladd-dai Cymru heb fod yna fuddsoddiad yn y sector hwn yn y dyfodol.¹¹

Porc o Gymru

Mae'r sector moch yng Nghymru yn fach, gyda llai na 0.5 y cant o boblogaeth moch y DU. Yn 2016, roedd yn cyfrannu 0.33 y cant o gyfanswm gwerth Allbwn Amaethyddol Cymru.¹² Mae Cymru yn 5 y cant hunangynhaliol o ran porc o'i gymharu â'r DU sy'n 55 y cant. Yn wahanol i gig eidion a chig oen, mae'r rhan fwyaf o'r porc a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei fwyta gan y farchnad ddomestig. Mae hyn yn adlewyrchu maint a ffurf y diwydiant, sy'n fach iawn o ran ei natur gyda nifer fach o gynhyrchwyr arbenigol gyda'r rhelyw o'r rheini'n gynhyrchwyr brwdfrydig ar raddfa fach yn gweithredu fel tyddynwyr.¹³

Mae faint o borc a chynnyrch porc sy'n cael ei fwyta yn parhau i gynyddu; mae faint o borc sy'n cael ei fwyta y pen yn fwy na chig oen a chig eidion gyda'i gilydd. Mae'r DU yn fewnforiwr net o gig mochyn; mae tua 60 o'r cig a fwyteir wedi'i fewnforio, bron y cyfan o'r DU, gyda Denmarc, yr Almaen a'r Iseldiroedd yn cyfrif am dros 60 y cant o hyn. Mae'r cynnyrch sy'n cael ei fewnforio yn cynnwys nifer fawr o facwn, gamwn, ham a selsig. Mae'r tariffau ar borc a chig mochyn yn uchel, sy'n atal cig mochyn o'r tu allan i'r UE rhag dod i mewn i'r UE.

“ Mae faint o borc a chynnyrch porc a fwyteir yn parhau i gynyddu. ”



⁹⁻¹¹ Capasiti yn y Diwydiant Lladd Cig Coch yng Nghymru, Mawrth 2016

¹² Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru - Allbwn ac Incwm Amaethyddol Cyfansymiol, 2016 Dyddiad rhyddhau: 25 Chwefror 2016


¹³ <https://seneddresearch.blog/2017/03/27/understanding-welsh-exports-a-look-at-the-latest-regional-trade-statistics/>

Cig Oen o Gymru

Mae Cymru yn allforiwr net o gig oen, gyda 30 y cant o ddefaid y DU ond dim ond 5 y cant o boblogaeth y DU. Mae cig oen yn gynnyrch eiconig o Gymru; mae gan Gig Oen o Gymru statws PGI ac mae'n frand adnabyddus ym marchnad y DU a marchnadoedd byd-eang, gyda hyd at 35 y cant yn cael ei allforio i'r tu allan i'r DU. Amcangyfrifir bod dros 90 y cant o'r allforion hyn yn mynd i'r farchnad sengl yn yr Undeb Ewropeaidd.¹⁴ O ran y cig oen o Gymru sy'n cael ei allforio i'r UE, mae'r rhan fwyaf yn mynd i Ffrainc, yr Eidal, yr Almaen, Sbaen, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a Sgandinafia. Bach iawn sy'n cael ei allforio y tu allan i'r UE, ond maent yn gallu hawlio premiwm amdano. Y tu allan i'r UE, mae'r rhan fwyaf yn mynd i'r Swistir, Canada, Yr Emiraethau Arabaidd Unedig a Hong Kong.¹⁵

Mae'r cynnyrch sy'n cael ei allforio'n allweddol er mwyn helpu i gael cydbwysedd gyda'r carcass. Yn 2016, roedd dros 40 y cant o'r cig oen a brynwyd mewn siopau ym Mhrydain yn ddarnau o goes i'w rhostio, ond mae'r goes yn cyfrif am ychydig dros 20 y cant yn unig o garcas cyfan yr oen. Mae'r anghydbwysedd posibl hwn yng ngharcas yr oen yn un o'r prif broblemau pe collid y farchnad allforio i'r UE, oherwydd bod aelod-wladwriaethau'n ffafrio'r ystlys a'r ysgwydd, sy'n gweddu'n dda â'r galw gan brynwyr yn y DU.¹⁶

Yn draddodiadol, mae'r farchnad cig oen ysgafn wedi'i gysylltu ag allforio i wledydd môr y Canoldir, yn enwedig yr Eidal a Sbaen. Byddai colli mynediad at farchnadoedd ffafriol yn cael effaith sylweddol ar brisiau'r mathau hyn o garcasau, sy'n cael eu cysylltu'n fwyaf ag ucheldir Cymru. Petai tariffau'n cael eu codi ar allforion, byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar lawer o gynnyrch da byw¹⁷ ac mae'n debygol o olygu na fyddai'r allforion hyn yn hyfyw yn economaidd ar y prisiau presennol.



Ffigur 3. Ble mae cig oen yn cael ei fwyta?

Cig Eidion o Gymru

Mae allforion Cig Eidion o Gymru allan o'r DU yn cyfrif am 13 y cant o holl allforion y DU. Yn 2015, roedd dros 90 y cant o allforion cig eidion y DU wedi mynd i wledydd eraill yn y DU. Iwerddon a'r Iseldiroedd yw'r cyrchfannau pwysicaf, yn cyfrif am 55-65 y cant o'r holl fasnach. Mae'r sector cig eidion, fel cig oen, yn rhannu'r un broblem o ran cydbwysedd y carcass, gan fod cyflenwad y DU o doriadau â gwerth is ac offal yn fwy na'r galw.


Mae'r DU yn fewnforiwr net o gig eidion, oherwydd nid yw'n agos at fod yn hunangynhaliol. Ar hyn o bryd, mae'r DU yn mewnforio tua 35 y cant o'r cig eidion a'r cig llo a gaiff ei fwyta bob blwyddyn. Iwerddon yw'r prif gyflenwr o hyd, gyda bron 70 y cant o gyfran y farchnad. At ei gilydd, mae'r UE yn cyflenwi dros 90 y cant o'r cig eidion a gaiff ei fewnforio.

¹⁴ <http://gov.wales/newsroom/environmentandcountryside/2017/171009-boost-for-red-meat-export-plans-announced/?lang=en>

¹⁵ <https://seneddresearch.blog/2017/03/27/understanding-welsh-exports-a-look-at-the-latest-regional-trade-statistics/>

¹⁶ Senarios Brexit: asesiad effaith, AHDB 2017 https://ahdb.org.uk/brexit/documents/Horizon_BrexitScenarios_Web_2017-10-16.pdf

¹⁷ Beth fydd Brexit yn ei olygu ar gyfer masnach y DU mewn cynnyrch amaethyddol, AHDB 2017 https://ahdb.org.uk/documents/Horizon_Brexit_Analysis_Report-Oct2016.pdf



Llaeth

Yn ôl amcangyfrifon AHDB, mae'r sector llaeth yng Nghymru yn cynhyrchu 1.8 biliwn litr o laeth. Mae yna dros 1,700 o gynhyrchwyr.¹⁸ At ei gilydd, mae llaeth a chynnyrch llaeth yn cyfrif am 29 y cant o allbwn amaethyddol Cymru, o'i gymharu ag 14 y cant yn y DU yn gyfan. Mae cynhyrchiant llaeth amrwd yng Nghymru yn fwy na'r capasiti i'w brosesu. Mae dadansoddiad o fewnlif llaeth proseswyr llaeth o Gymru a Lloegr yn awgrymu bod tua 51 y cant o'r llaeth a gynhyrchir yng Nghymru yn cael eu brosesu mewn ffatrioedd llaeth yng Nghymru, tra bod y 49 y cant arall yn cael ei gludo i Loegr i'w brosesu.¹⁹

Mae mwyafrif y llaeth o Gymru a gedwir yng Nghymru i'w brosesu (tua 90 y cant) yn cael ei wneud yn gaws.²⁰ Y ddau brif gynnyrch caws a gynhyrchir yw Cheddar a mozzarella, gyda Cheddar a chaws caled arall yn cyfrif am 60 y cant o'r caws a gynhyrchir yng Nghymru.


Mae'r boblogaeth leol gymharol fach a'r pellter i ganolfannau mawr fel Llundain neu Birmingham wedi'u nodi fel rhesymau dros nifer y proseswyr caws. Nid oes prosesydd llaeth hylif 'ar raddfa fawr' yng Nghymru sy'n gallu cyflenwi'r archfarchnadoedd mawr.²¹

Yn ôl adroddiad Rabobank, mae diwydiant llaeth y DU yn 77 y cant hunangynhaliol. Mae'r sector hwn yn ddibynnol ar gydbwysedd o fewnforion ac allforion sy'n amrywio yn ôl cynnyrch, er ei fod yn dal yn fewnforiwr net o laeth. Yn yr UE, Iwerddon o bell ffordd yw'r prif fewnforiwr i'r DU (ac wedyn Ffrainc a'r Almaen). Fe wnaeth Iwerddon

allforio 65,000 tonnelli o fenyn a llaeth a 139,000 tonnelli o gaws i mewn i'r DU yn 2015, yn cynnwys 85 y cant o'r Cheddar sy'n cael ei fewnforio. Mae'n siŵr y bydd Iwerddon yn ceisio cynnal mynediad i farchnad y DU, ond gallai unrhyw doriad alluogi cynhyrchwyr yn y DU i gynyddu eu cyfran o'r farchnad ddomestig.


Petai'r DU yn cytuno ar fasnach heb dariff gyda'r UE, yna mae'n debyg y bydd popeth yn mynd rhagddo fel arfer yn y diwydiant hwn. Fodd bynnag, oni cheir cytundeb masnach, gallai cynhyrchwyr llaeth y DU wynebu tariffau er mwyn allforio i'r UE. Felly, prif gyfleoedd masnach Brexit fyddai canolbwyntio ar lenwi bwlch y mewnforion i'r DU. Byddai unrhyw sefyllfa lle bydd tariffau'n cael eu gosod ar gynnyrch yr UE sy'n cael eu mewnforio i'r DU yn rhoi mantais pris sylweddol i gynnyrch o Gymru dros gynnyrch sy'n cael ei fewnforio.

Cyfle allweddol arall yw'r boblogaeth fyd-eang sy'n dal i dyfu, gyda'r nifer cynyddol o ddefnyddwyr dosbarth canol yn gofyn am gynnyrch llaeth. Mae'n bosibl y byddai'n haws i'r DU gytuno ar drefniadau masnachu ffatriol gyda rhai o'r marchnadoedd hyn sy'n tyfu, yn benodol rhanbarth Asia-Môr Tawel, yn hytrach na'r UE. Mae AHDB wedi cyhoeddi adroddiad Horizon yn asesu'r rhagolygon ar gyfer allforio llaeth (a chynnyrch da byw arall) yn fyd-eang.²²



Ffigur 4. Cyflenwad llaeth o Gymru yn erbyn y llaeth a gynhyrchir

Ffynhonnell: Amcangyfrifon AHDB/ Proseswyr/Defra



Ffigur 5. Cynhyrchiant caws o Gymru o'i gymharu â faint sy'n cael ei fwyta

Ffynhonnell: AHDB

¹⁸ <http://www.assembly.wales/Research%20Documents/17-28/17-028-Web-English.pdf>

¹⁹ Astudiaeth gwmpasu yn y sector prosesu llaeth yng Nghymru

²⁰⁻²¹ <http://www.assembly.wales/Research%20Documents/17-28/17-028-Web-English.pdf>

²² Cig a Llaeth: Ein rhagolygon yn y farchnad fyd-eang, AHDB 2017: https://ahdb.org.uk/documents/Horizon_meatanddairy_Sept2017.pdf

Tatws


Cafodd mwy na 1,700 hectar o datws eu tyfu yng Nghymru yn 2017.²³ Serch hynny, mae tatws yn cyfrannu at gyfran gymharol isel o'r allbwn amaethyddol, yn cyfrif am ychydig dros un y cant yn unig yn 2016.²⁴ Caiff cynhyrchiant ei ddominyddu gan y sector marchnad pacio parod, sector sydd wedi tyfu mewn momentwm dros y chwe blynedd diwethaf, fel a welir yn Ffigur 6.

Mae cyfran gymharol isel o gynhyrchiant yn mynd i'r sector marchnad tatws hadyd a phrosesu, fel a amlinellir isod.

Tabl 2. Cynhyrchiant tatws yng Nghymru yn ôl sector marchnad a fwriedir

Ardal blannu (ha)	Cymru (%)	Prydain Fawr (%)
Bagiau ffres	3	5
Sglodion ffres	7	12
Pacio'n ffres	73	38
Prosesu	12	29
Dibenion eraill	1	2
Hadau	5	14
Cyfanswm	100	100

Ffynhonnell: AHDB 2017



Ffigur 6. Ardal blannu (ha) tatws yn ôl sector a fwriedir yng Nghymru

Ffynhonnell: AHDB 2017

²³ Potato data centre – planted area by region, AHDB 2018

²⁴ Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/aggregate-agricultural-output-income/?lang=en>

Garddwriaeth

Mae'r diwydiant garddwriaeth yn cynnwys sbectrwm eang o gnydau, yn cynnwys cynhyrchu ffrwythau a llysiau, cynhyrchu planhigion addurniadol (yn cynnwys tyfu blodau), cnydau gwahanol, tirlunio a thyweirch. Mae garddwriaeth yn cyfrannu £45 miliwn i gyfanswm allbwn amaethyddol Cymru, a oedd yn dri y cant o'r cyfanswm yn 2016.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif nad yw hyd at 70 y cant o weithgarwch busnes y diwydiant ffrwythau a llysiau yn cael ei gofnodi, yn bennaf oherwydd nid yw pob busnes garddwriaethol wedi'u cofrestru.²⁵

Er bod gan Gymru lawer o rinweddau naturiol sy'n ffafrio'r sector (hinsawdd ffafriol, priddoedd ffrwythlon, a'r galw mewn canolfannau poblog cyfagos), dim ond 0.08 y cant o'r holl dir amaethyddol yng Nghymru sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer garddwriaeth.²⁶ Mae maint bach y sector garddwriaeth ar raddfa cae yng Nghymru yn cael ei gyfyngu gan ffactorau daearyddol megis uchder ac amodau tywydd sy'n cyfyngu'r ardal o dir sy'n addas ar gyfer cynhyrchu cnydau garddwriaethol masnachol.²⁷

Mae'r rhan fwyaf o sector garddwriaeth y DU yn canolbwyntio ar y farchnad ddomestig, felly ychydig iawn o allforio sy'n digwydd. Roedd cyfanswm allforion y DU o ffrwythau a llysiau yn ddim ond £199 miliwn yn

2015, sy'n llai na phedwar y cant o werth allforion (nid oes ffigurau penodol ar gyfer Cymru ar gael). Mae lefel hunangynhaliath y DU mewn llysiau wedi gostwng o 83 y cant i 58 y cant.²⁸ Mae gostyngiad yn allbwn y DU mewn llysiau wedi ein gwneud yn fwy dibynnol ar fewnforion, sydd wedi cynyddu'n sydyn. Daw hyn yn sgil galw am llysiau y tu allan i'r tymor ac am gynnyrch nad oes modd eu tyfu yn y DU.

Cyfleoedd a risgiau Brexit

Gan dybio y bydd y DU yn gadael y farchnad sengl a'r undeb dollau, bydd Brexit yn arwain at fwy o anghydfod masnachu a chostau masnachu. Mae'n bosibl hefyd y bydd tariffau'n cael eu gosod ar fasnach. Mewn gwirionedd, byddai hyn yn cynyddu pris cynnyrch a fewnforir ac mae'n debyg y bydd marchnad defnyddwyr y DU yn amsugno unrhyw godiadau mewn pris. Dylai hyn olygu bod cynnyrch domestig yn dod yn fwy cystadleuol a gallai hyn alluogi bod cynhyrchiant y DU yn ehangu a llenwi bwlch rhywfaint o allforion.

Mae'n ymddangos taw'r risg fwyaf i arddwriaeth yn sgil Brexit yw argaeledd llafur a'r costau. Mae garddwriaeth yn ddiwydiant sy'n ddwys o ran llafur gyda llawer o weithwyr yn cael eu cyflogi'n dymhorol neu dros-dro. Golyga hyn fod y diwydiant yn ddibynnol iawn ar weithwyr mudol. Yn y tymor hirach, gallai awtomeiddio prosesau casglu a phacio helpu i leddfu'r broblem o brinder gweithwyr a chynnydd mewn costau llafur.



²⁵ Llywodraeth Cymru <https://businesswales.gov.wales/foodanddrink/horticulture>

²⁶ Garddwriaeth yng Nghymru, Cyswllt Ffermio <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/posts/horticulture-wales>


²⁷ Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/drah/publications/100416-horticulture-action-plan-en.pdf>

²⁸ Crynodeb o Weithdai Cynllunio Senario Gadael yr UE, Llywodraeth Cymru 2018

Ŷd

Mae'r sector âr yng Nghymru yn fach ac yn cwmpasu 4.7 y cant o gyfanswm tir Cymru. Gwenth a barlys yw'r prif gnydau yn ôl ardal, sy'n cyfrif am 50 y cant o'r tir âr. Mae 260 o ffermydd wedi'u dosbarthu fel ffermydd âr, gyda 92 daliad arall wedi'u dosbarthu fel cnydau cyffredinol, a 398 arall yn rhai cymysg (cnydau gydag amrywiol fathau o dda byw). Mae arwynebedd cnydau âr yng Nghymru wedi cynyddu ers 2008 pan newidiodd y rheol Polisi Amaethyddol Cyffredin a oedd yn gofyn bod rhywfaint o dir yn cael ei osod o'r neilltu.²⁹

Yng Nghymru, y farchnad bwysicaf yw porthiant anifeiliaid. Bydd masnach cynnyrch da byw rhwng yr UE a'r DU yn cael effaith allweddol ar y galw am rawn o Gymru. Os bydd costau masnachu yn cynyddu, o ganlyniad i wiriadau a/neu dariffau tollau, yna bydd hynny'n effeithio ar gynhyrchiant da byw a fydd yn ei dro yn effeithio ar y galw am borthiant domestig. Byddwn yn trafod effeithiau senarios masnachu gwahanol yn nes ymlaen, ond os bydd Brexit yn arwain at sector da byw llai yng Nghymru, bydd y galw am borthiant yn lleihau hefyd.



Figur 7. Arwynebedd cnydau âr a garddwriaeth yng Nghymru 2000-2016

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru³⁰



²⁹⁻³⁰ Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/statistics/2016/161124-survey-agriculture-horticulture-june-2016-en.pdf>

POLISI AMAETHYDDOL

Yn y DU, mae'r polisi amaethyddol wedi'i ddatganoli. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio gweithgareddau amaethyddol a gweinyddu arian y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae Llywodraeth Cymru yn hyblyg iawn yn y ffordd mae'n dewis gweithredu'r PAC. Er enghraifft, ceir hyblygrwydd yn y ffordd y caiff cyllid ei ddyrannu rhwng Colofn 1 a Cholofn 2, gyda rhaglen datblygu gwledig wedi'i theilwra.

- **Colofn 1** – Cynllun y Taliad Sylfaenol – caiff ei gyllido 100 y cant gan yr UE ond ei reoli gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru
- **Colofn 2** – yn cael ei weinyddu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Caiff prosiectau o dan Golofn 2 eu cyllido ar y cyd drwy ffynonellau cyhoeddus neu breifat o arian sydd ddim yn dod o'r UE.

Yn ôl diffiniad Ewrop, mae tua 80 y cant o dir ffermio Cymru yn cael ei ddsbarthu fel ardaloedd llai ffafriol. Mae'r ardaloedd hyn wedi'i dosbarthu fel hyn oherwydd presenoldeb tir anffrwythlon gyda photensial cyfyngedig sy'n cynhyrchu enillion economaidd sy'n sylweddol llai na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn y DU, mae'n egwyddor hir-sefydlog fod yna amrywiadau o fewn y label gyffredinol hon, sydd wedi arwain at yr is-ddosbarthiadau o Ardal dan Anfantaes Fawr ac Ardal dan Anfantaes. Caiff y tir amaethyddol y tu allan i'r rhanbarthau hyn ei ddiffinio fel iseldir.

Colofn 1 – Cymorth uniongyrchol

Mae Cymru yn derbyn dyraniad Colofn 1 sydd werth tua €2.2 biliwn i gyd (deg y cant o gyfanswm y DU), neu €320 miliwn y flwyddyn, yn ogystal â €355 miliwn o dan Golofn 2. Mae £260 miliwn y flwyddyn o'r taliad sengl yn cael ei dalu i dros 17,000 o fusesau fferm yng Nghymru drwy'r PAC, gyda chymorthdaliadau cyfartalog i ffermwyr llaeth yng Nghymru yn tua £22,965 y flwyddyn a £19,289 i ffermwyr defaid yng Nghymru. Mae dros 80 y cant o incwm ffermydd yng Nghymru yn deillio o gyllid yr UE, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU sy'n 35–56 y cant o incwm gros ffermio. Golyga hyn fod y PAC yn cyfrif am gyfran helaeth o broffidoldeb y rhan fwyaf o ffermydd.³¹ Yn y cyfnod 2014–2020, bydd Cymru yn derbyn £957 miliwn o gyllid o'r Rhaglen Datblygu Gwledig - £555 miliwn ohono o'r UE.³²

Tabl 2. Gwariant PAC fesul gwlad yn y DU

	Cymru	Yr Alban	Lloegr	Gogledd Iwerddon
Cyfanswm gwariant PAC (£m)	353	614	2,184	317
Cyfran bresennol o'r gwariant (%)	10	17	63	10
Nifer y daliannau fel % y DU	16	24	49	11
Ardal Amaethyddol a Ddefnyddir (HA) fel % o'r DU	6	32	52	10
Poblogaeth fel % o'r DU	5	8	84	3

³¹ <http://sites.cardiff.ac.uk/wgc/files/2016/07/AGRICULTURE.pdf>


³² http://www.jilleevans.net/agriculture_eu_factsheet.pdf



Pwysigrwydd Cymorth PAC

Yn seiliedig ar y ffigurau cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf, mae cronfeydd yr UE yn bwysicach yn ôl cyfran i Gymru nag i weddill y DU ar gyfer da byw sy'n pori (Ardal Lai Ffatriol ac iseldir) ond nid y sector llaeth.

Mae rhan fwyaf o gronfeydd yr UE sydd wedi'u dyrannu ymlaen llaw yn deillio o PAC Colofn 1, gyda chymorth i incwm ffermwyr ar ffurf taliadau uniongyrchol a mesurau i gefnogi'r farchnad. Mae Ffigur 8 yn dangos dadansoddiad o'r incwm ar gyfer y sectorau amaethyddol allweddol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr.



Ffigur 8. Cymharu Incwm Busnesau Fferm ar gyfer Cymru a Lloegr fesul sector, 2014–2016

Ffynhonnell: Arolwg Busnesau Fferm Gwledig/Incwm fferm yng Nghymru 2015, 2016, 2017

Mae natur anwadal y farchnad yn y sectorau amaethyddol allweddol yng Nghymru yn golygu bod taliadau uniongyrchol yn dal mor bwysig ag erioed wrth helpu i ddigolledu ffermwyr mewn achosion posibl lle mae'r farchnad yn methu, er mwyn helpu i reoli newidiadau sydyn mewn pris, ac i wobrwyo safonau uchel o ffermio. Roedd incwm busnes fferm net yng Nghymru ar gyfartaledd wedi gostwng 25 y cant yn y flwyddyn hyd at Mawrth 2016, yn ôl ffigurau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r PAC yn helpu i warchod yn erbyn methiannau marchnadoedd amaethyddol i ddarparu lefel deg o incwm ar gyfer ffermwyr.³⁴


Caiff y taliad sylfaenol i ffermwyr yng Nghymru - y Taliad Fferm Sylfaenol dan Golofn 1 - ei weinyddu o dan Reoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015. Caiff y cyllid ei weinyddu hefyd drwy Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig Cymru 2014. Caiff prosiectau o dan Golofn 2 eu cyllido ar y cyd drwy ffynonellau cyhoeddus neu breifat o arian. At hynny, mae Cymru yn derbyn dyraniadau penodol gan yr UE o dan y Polisi Cydlyniant a drwy raglenni ariannol eraill (ee Horizon 2020) sy'n rhoi cyfle i sefydliadau yng Nghymru wneud cais uniongyrchol i'r Comisiwn Ewropeaidd.³⁵

Colofn 2 – Datblygu gwledig

Datblygu gwledig yw'r ail golofn yn y PAC, sy'n darparu amlen o gyllid yr UE i aelod-wladwriaethau er mwyn rheoli rhaglenni sy'n cael eu cyllido ar y cyd. Mae pob un o wledydd y DU yn gosod eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer cymorth wedi'i dargedu, o dan chwe rhaglen economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol fel a amlinellir yn rheoliad datblygu gwledig yr UE ar gyfer y cyfnod 2014-2020.

Mae Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020 ar gyfer Cymru yn canolbwyntio ar:

- Cystadleurwydd (ar y fferm a drwy'r gadwyn gyflenwi)
- Yr amgylchedd (gwaith amaeth-amgylcheddol, coetiroedd, ynni adnewyddadwy)
- Y Gymuned (mynediad at wasanaethau a'r dull LEADER)³⁶



Ffigur 9. Cyllid Datblygu Gwledig 2014–2020

Ffynhonnell: Y Comisiwn Ewropeaidd

Heb fframwaith ddosbarthu'r PAC, erys cwestiynau pwysig o hyd am faint yr amlen gyllido i Gymru a'r math o fesurau polisi fydd Cymru yn eu rhoi ar waith. Mae'r polisi amgylcheddol wedi'i ddatganoli'n llawn ac er bod trafodaethau'n cael eu cynnal am sefydlu fframwaith genedlaethol y DU ar gyfer cymorth amaethyddol, mewn byd ar ôl Brexit mae'n bosibl y gallai fwy o wahaniaethau ymddangos mewn mesurau polisi ledled y DU.

³⁴⁻³⁵ http://www.jillevans.net/agriculture_eu_factsheet.pdf

³⁶ <http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?lang=en>

LLAFUR

Mae AHDB wedi cyhoeddi adroddiad Horizon ar effaith Brexit ar lafur.³⁷ Os nad yw gweithwyr yn rhydd i symud rhwng y DU a gweddill yr UE ar ôl Brexit, bydd argaeledd llafur a chostau llafur yn newid.

Garddwriaeth yw'r sector sy'n dibynnu fwyaf ar weithwyr mudol. Gan ystyried bod garddwriaeth ond yn cynrychioli cyfran cymharol fach o'r diwydiant, mae'n debyg nad yw Cymru mor agored i'r risg hon ag yw rhannau eraill o'r DU.

Serch hynny, bydd cyfyngiadau ar fewnfudo yn creu problemau i'r sectorau prosesu cig a phrosesu bwyd yn benodol.

Gallai cyfyngiadau ar fewnfudo olygu nad oes digon o weithwyr ar gael i gynnal lladd-dai a ffatrioedd prosesu cig yng Nghymru a'r DU. Yn dilyn y bleidlais i adael, ceir rhywfaint o dystiolaeth yn barod bod gostyngiad yn nifer y gweithwyr o'r UE. Y prif resymau am hyn yw'r bunt wan yn erbyn yr ewro a'r ansicrwydd ynghylch statws gweithwyr o'r UE pan fydd y DU yn gadael yr UE.

Roedd adroddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar Brexit³⁸ hefyd wedi tynnu sylw at faterion yn ymwneud â'r gofyniad i gael milfeddygon ar y llinell lladd mewn lladd-dai. Yng Nghymru, mae 80 y cant o'r milfeddygon mewn lladd-dai yn dod o'r UE.

³⁷ Senarios Brexit: asesiad effaith, AHDB 2017: https://ahdb.org.uk/documents/Horizon_Brexit_Analysis_20September2016.pdf

³⁸ Crynodeb o Weithdai Cynllunio Senario Gadael yr UE, Llywodraeth Cymru 2018

RHEOLEIDDIO

Ar hyn o bryd yr UE sy'n gosod y fframwaith rheoleiddiol sy'n llywodraethu cynhyrchiant amaethyddol, gwarchodaeth amgylcheddol, diogelwch bwyd a labelu bwyd, yn ogystal â rhai meysydd eraill. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r fframwaith hwn, mae llawer o agweddau wedi'u datganoli.

Ar hyn o bryd yr UE sy'n gosod y fframwaith rheoleiddiol sy'n llywodraethu cynhyrchiant amaethyddol, gwarchodaeth amgylcheddol, diogelwch bwyd a labelu bwyd, yn ogystal â rhai meysydd eraill. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r fframwaith hwn, mae llawer o agweddau wedi'u datganoli.

Bydd busnesau yn y DU yn dal i fod yn rhwym wrth reoliadau'r UE hyd nes bod y DU yn gadael yr UE yn ffurfiol. Hyd yn oed wedyn, mae'n debygol iawn y bydd y rhan fwyaf o'r rheolau a'r rheoliadau'n parhau, gyda Llywodraeth y DU yn ceisio mabwysiadu'r rhan fwyaf o ddeddfau'r UE yn neddfau'r DU o fewn y Bil Ymadael â'r UE.

Mae llawer yn gweld Brexit fel cyfle i adennill rheolaeth dros faterion rheoleiddio, gan roi mwy o hyblygrwydd i osod rheoliadau ledled y DU ac o fewn y gweinyddiaethau datganoledig. Serch hynny, mae safonau rheoleiddio yn chwarae rôl bwysig mewn hwyluso cadwyni cyflenwi ar draws ffiniau. Felly, os yw'r DU yn dymuno parhau i fasnachu gyda'r UE neu gyda gwledydd eraill sy'n gofyn am gydymffurfiaeth yr

UE, mae'n bosib mai ychydig iawn o hyblygrwydd fydd yna mewn gwirionedd. At hynny, petai safonau'r DU yn wahanol neu'n is na safonau presennol yr UE, mae'n bosibl y byddai cynnyrch o'r DU yn cael ei gysylltu, yn gam neu'n gymwys, â safonau is (ee o ran diogelwch defnyddwyr neu ôl-troed carbon) a gallai hynny effeithio ar y galw am nwyddau o'r DU.

Mae datganoli hefyd yn cymylu'r cwestiwn o reoleiddio yn dilyn Brexit. O ran y materion hynny sydd heb eu cadw'n ôl gan San Steffan (er enghraifft, gwarchodaeth amgylcheddol, agweddau ar ddiogelwch bwyd a labelu bwyd, ac amaethyddiaeth), mae'n bosib iawn y bydd mwy o wahaniaethau'n datblygu rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU yn absenoldeb safonau a rheoliadau cyffredin yr UE.

Dau set allweddol o reoliadau sy'n effeithio ar amaethyddiaeth yw'r rheini sy'n ymwneud â chynnyrch diogelu planhigion a lles anifeiliaid. Mae AHDB wedi cyhoeddi adroddiad Horizon yn canolbwyntio ar gynnyrch diogelu planhigion.³⁹

³⁹ What will happen to Plant Health and Plant Protection Product regulation after Brexit? AHDB 2017: https://ahdb.org.uk/documents/Horizon_Brexit_Analysis_january2017.pdf.

SENARIOS BREXIT A CHYMRU

Gyda'r trafodaethau rhwng y DU a'r UE yn mynd rhagddynt, a thra bo manylion ynghylch y polisi domestig mewn llawer o feysydd yn annelwig, mae'n anodd asesu sut bydd Brexit yn effeithio ar amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru. Mae AHDB wedi cyhoeddi adroddiad Horizon ar Senarios Brexit: asesiad o'r effaith⁴⁰. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio mapio'r ystod o sefyllfaoedd posibl ar ôl Brexit a meintoli eu heffaith ar ffermio.

Nid yw'r tri senario darluniadol a ddewiswyd, sydd wedi'u crynhoi yn Nhabl 4, yn ceisio rhagweld na disgrifio canlyniadau gwirioneddol y trafodaethau Brexit. Eu pwrpas yw ceisio darlunio'r ystod o sgil-ffeithiau posibl ac ynysu effaith Brexit rhag ffactorau eraill fel cyfraddau newid arian, cyfraddau llog a thwf economaidd, y tybir eu bod yn aros yn ddigyfnewid.

Tabl 4. Senarios Brexit

	Senario 1: Esblygiad	Senario 2: Rhyddhau unochrog	Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle
Cefnogaeth y cyhoedd	Caiff taliadau uniongyrchol a thaliadau amaeth-amgylcheddol eu cynnal ar eu lefelau presennol	Taliadau uniongyrchol yn cael eu dileu, taliadau amaeth-amgylcheddol a thaliadau eraill o dan Golofn II yn cynyddu i gyfateb i 50% o'r cymorth presennol	Taliadau uniongyrchol yn cael eu dileu, taliadau amaeth-amgylcheddol yn gostwng i 25% o'r lefelau presennol o gymorth
	Taliadau Colofn I a Cholofn II yn aros yr un peth	Taliadau Colofn I yn gostwng i 0%, taliadau Colofn II (a'r costau cysylltiedig) yn cynyddu 259% i ddosbarthu 50% o gyfanswm y cronfeydd CI+CII	Taliadau Colofn I yn gostwng i 0%, taliadau Colofn II (a'r costau cysylltiedig) yn cynyddu 130% i ddosbarthu 25% o gyfanswm y cronfeydd CI+CII
Llafur	Yn cael ei gynnal ar y lefel bresennol	Llafur rheolaidd o'r tu allan i'r DU yn cael ei gyfyngu i 50% o'r lefelau presennol	Llafur rheolaidd o'r tu allan i'r DU yn cael ei gyfyngu i 50% o'r lefelau presennol
	Dim newid i gostau llafur	Yn cael ei gynnal ar y lefel bresennol ar gyfer gweithwyr tymhorol (dros dro)	Llafur tymhorol (dros dro) o'r tu allan i'r DU yn cael ei gyfyngu i 50% o'r lefelau presennol
Perthynas fasnachu â'r UE	Cytundeb Masnach Rydd Cynhwysfawr yn galluogi masnachu rhwng y DU a'r UE heb dariffau	Dim cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE	Dim cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE
	Cynnydd o 5% ym mhrisiau'r DU i adlewyrchu costau anghydfod masnachu mewn Cytundeb Masnach Rydd	Y berthynas fasnach rhwng y DU a'r UE yr un peth â gyda gweddill y byd	Y berthynas fasnach rhwng y DU a'r UE yr un peth â gyda gweddill y byd
Perthynas fasnachu gyda gweddill y byd	Rheolau Sefydliad Masnach y Byd yn berthnasol	Dim cytundeb masnach rhwng y DU a'r UE	Mae'r DU yn mabwysiadu'r un lefel allanol o dariffau â'r UE ac yn cynnal cyfran o'i Gwotâu Cyfradd Tariff presennol gyda Sefydliad Masnach y Byd, yn cynnwys ar gyfer cig oen o Seland Newydd ac Awstralia a'r cwota cig eidion Hilton
	Mae gan y DU fynediad at gyfran o Gwotâu Cyfradd Tariff Sefydliad Masnach y Byd ac mae'n cytuno ar Gytundebau Masnach Rydd gyda gwledydd eraill sydd â Chytundebau Masnach Rydd gyda'r UE yn barod.	Rheolau Sefydliad Masnach y Byd yn berthnasol, er bod y DU yn gostwng tariffau mewnforio yn gyfan gwbl i 0% ar gyfer yr holl gynnyrch amaethyddol o fewn cwotâu penodol	Cynnydd o 8% ym mhrisiau'r DU i adlewyrchu costau anghydfod masnachu heb Gytundeb Masnach Rydd, dim tariff
Amgylchedd rheoleiddio	Cynnydd o 8% ym mhrisiau'r DU i adlewyrchu costau anghydfod masnachu gyda gweddill y byd	Mae holl reoliadau'r UE yn cael eu mabwysiadu i gyfraith y DU, sy'n golygu nad oes newid mewn costau rheoleiddio	Cynnydd o 8%, yn ogystal â chostau tariff Sefydliad Masnach y Byd ym mhrisiau'r DU - ac eithrio cig oen a chig eidion yn unol â'r cwotâu presennol
	Mae holl reoliadau'r UE yn cael eu mabwysiadu i gyfraith y DU, sy'n golygu nad oes newid mewn costau rheoleiddio	Mae holl reoliadau'r UE yn cael eu mabwysiadu i gyfraith y DU, gyda'r baich rheoleiddio yn lleihau dros amser	Mae holl reoliadau'r UE yn cael eu mabwysiadu i gyfraith y DU, sy'n golygu nad oes newid mewn costau rheoleiddio
	Dim newid i'r costau	Gostyngiad o 5% mewn costau hadau, gwrtaith, diogelu cnydau, costau cnydau eraill, ffioedd a meddyginiaethau miffeddyg, a chostau da byw arall	Dim newid i'r costau

⁴⁰ Senarios Brexit: asesiad effaith, AHDB 2017: https://ahdb.org.uk/brexit/documents/Horizon_BrexitScenarios_Web_2017-10-16.pdf

Mae modelu AHDB yn mynd ymhellach nag astudiaethau eraill drwy geisio meintoli effeithiau Brexit gan asesu pedair agwedd wahanol ar Brexit. Mae'r model yn asesu effeithiau newidiadau i drefniadau masnachu, lefelau o gymorth polisi amaethyddol. rheoleiddio a llafur. Wedi dweud hyn, mae canfyddiadau'r ymchwil yn weddol gyson â chanfyddiadau a welwyd mewn astudiaethau eraill. Er enghraifft, cafodd effeithiau ar fasnach eu hasesu gan y Sefydliad Amaeth-fwyd a Biowyddorau (Agri-food and Biosciences Institute - AFBI) gan ddefnyddio'r model FAPRI. Hefyd, roedd Prifysgol Wageningen wedi archwilio masnach a chymorth mewn astudiaeth a noddwyd gan yr NFU.


Ceir nodyn manwl ar y fethodoleg ar wefan AHDB.

Canlyniadau i Gymru

Er mwyn darparu tystiolaeth sy'n fwy penodol i Gymru, roedd AHDB wedi comisiynu dadansoddiad o rai mathau penodol o ffermydd yng Nghymru gan ddefnyddio data o'r Arolwg Busnesau Fferm yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn dangos sut gallai Incwm Busnes Fferm newid o'r llinell sylfaen, yn seiliedig ar gyfartaledd tair blwyddyn a ddaeth i ben yn 2016/17. Caiff canlyniadau o'r dadansoddiad hwn eu trafod yn yr adran hon.

Ardaloedd dan Anfantaes Sylweddol - Defaid yng Nghymru


Llinell sylfaen Incwm Busnes Fferm ar gyfer ffermydd defaid mewn Ardaloedd dan Anfantaes Sylweddol yw £24,600 (Ffigur 10). O dan **Senario 1: Esblygiad**, mae hyn yn gostwng 6 y cant i £23,000, o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog**, mae Incwm Busnes Fferm yn gostwng 85 y cant i £3,800, ac o dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae Incwm Busnes y Fferm yn mynd yn negyddol ar ôl gostwng 136 y cant i -£8,800. Mae'n bwysig nodi bod gwahaniaethau sylweddol mewn effeithiau i ffermydd ar lefelau perfformiad gwahanol. Gellir gweld graffiau sy'n dangos hyn yn yr Atodiad. Mae'r rhain yn dangos bod ffermydd sy'n perfformio yn y 25 y cant uchaf, o ran maint Incwm Busnes Fferm, yn gallu aros yn broffidiol o dan yr holl senarios. Mae hwn hefyd yn ganfyddiad ar gyfer yr holl sectorau eraill sydd wedi'u dadansoddi.



Ffigur 10. Effeithiau'r senarios ar Incwm Busnes Fferm: Ardaloedd dan Anfantaes Sylweddol - Defaid yng Nghymru

Mae Ffigur 11 yn dangos cydrannau Incwm Busnes Fferm ar gyfer pob senario a'r llinell sylfaen; mae'r cymariaethau rhyngddynt yn egluro pam fod Incwm Busnes Fferm yn gwahaniaethu rhwng y senarios.

- Mae'r gostyngiad o 6 y cant mewn Incwm Busnes Fferm a welir o dan **Senario 1: Esblygiad** yn cael ei yrru gan ostyngiadau yng ngwerth allbwn defaid, a achosir gan golli'r potensial o allforio
- Mae'r gostyngiad o 85 y cant mewn Incwm Busnes Fferm o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog** yn deillio o golli taliadau Colofn I (£27,500 fesul busnes), sydd ddim yn cael ei gwrthbwysu gan gynydd mewn taliadau Colofn II (o £10,200 i £29,000). Mae gostyngiadau yng ngwerth allbwn cynhyrchiant a chynnydd mewn costau sefydlog hefyd yn cael effaith, ond mae gostyngiadau mewn costau amrywiol yn gallu cynnig rhywfaint o gymorth gyda'r newidiadau hyn
- O dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae'r canlyniadau negyddol mewn Incwm Busnes Fferm yn deillio o gynydd llai mewn cymorth Colofn II (o £10,200 i £14,500) sydd ddim yn gwrthbwysu'n llawn colli cymorth Colofn I a chynnydd mewn costau sefydlog. Mae gwerth allbwn cynhyrchiant hefyd yn gostwng £9,700 mewn perthynas â'r llinell sylfaen. Mae'n debyg y bydd pwysau sylweddol ar ffermwyr llai effeithlon a gwasgedd ar faint fferm er mwyn lleihau costau talu gweithwyr




Ffigur 11. Cydrannau y newidiadau i Incwm Busnes Fferm: Ardaloedd dan Anfantaes Sylweddol - Defaid yng Nghymru



Ardaloedd Llai Ffatriol defaid a gwartheg eidion (ac eithrio defaid arbenigol mewn Ardaloedd dan Anfantaï Fawr)

- Llinell Sylfaen Incwm Busnes Fferm ar gyfer pori mewn Ardaloedd Llai Ffatriol yw £17,600 (Ffigur 12). O dan **Senario 1: Esblygiad**, mae hyn yn cynyddu 4 y cant i £18,400, o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog**, mae Incwm Busnes Fferm yn gostwng 109 y cant i £1,700, ac o dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae Incwm Busnes Fferm yn gostwng 100 y cant i -£100.




Ffigur 12. Effeithiau'r senarios ar Incwm Busnes Fferm: Pori Ardaloedd Llai Ffatriol yng Nghymru

Mae Ffigur 12 yn dangos cydrannau Incwm Busnes Fferm ar gyfer pob senario a'r llinell sylfaen; mae'r cymariaethau rhyngddynt yn egluro pam fod Incwm Busnes Fferm yn gwahaniaethu rhwng y senarios

- Mae'r cynnydd o 5 y cant mewn Incwm Busnes Fferm a welir o dan **Senario 1: Esblygiad** yn deillio o gynnydd bach mewn allbwn cynhyrchiant gwartheg yn sgil colli potensial allforio. Nid yw hyn yn cael ei wrthbwysyo gan ostyngiad yng ngwerth defaid

- Mae'r gostyngiad o 110 y cant mewn Incwm Busnes Fferm o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog** yn deillio o golli taliadau Colofn I (£20,100 fesul busnes), sydd ddim yn cael ei gwrthbwysyo gan gynnydd mewn taliadau Colofn II (o 3,500 i £10,000). Mae gostyngiad bychan yng ngwerth allbwn cynhyrchiant a chynnydd mewn costau sefydlog hefyd yn cael effaith, ond mae gostyngiadau mewn costau amrywiol yn gallu cynnig rhywfaint o gymorth gyda'r newidiadau hyn
- O dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae'r gostyngiad o 101 y cant yn Incwm Busnes Fferm yn deillio o gynnydd llai mewn cymorth Colofn II (o £3,500 i £5,000) sydd ddim yn gwrthbwysyo'n llawn colli cymorth Colofn I a chynnydd mewn costau sefydlog. Mae gwerth allbwn cynhyrchiant yn cynyddu mewn perthynas â'r llinell sylfaen, ond mae'n debyg y bydd pwysau sylweddol ar ffermwyr llai effeithlon a gwasgedd ar faint fferm er mwyn lleihau costau. Gellir gweld graffiau sy'n dangos hyn yn yr Atodiad




Ffigur 13. Cydrannau y newidiadau i Incwm Busnes Fferm: Pori Ardaloedd Llai Ffatriol yng Nghymru





Defaid a gwartheg eidion ar dir isel (hynny yw dim Ardaloedd Llai Ffaffriol)

Llinell sylfaen Incwm Busnes Fferm ar gyfer ffermydd gwartheg arbenigol yw £24,200 (Ffigur 14). O dan **Senario 1: Esblygu**, mae hyn yn cynyddu 4 y cant i £25,100, o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog**, mae Incwm Busnes Fferm yn gostwng 84 y cant i £3,900, ac o dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae Incwm Busnes Fferm yn gostwng 65 y cant i £8,400.




Ffigur 14. Effeithiau'r senarios ar Incwm Busnes Fferm: Pori ar dir isel yng Nghymru

Mae Ffigur 15 yn dangos cydrannau Incwm Busnes Fferm ar gyfer pob senario a'r llinell sylfaen; mae'r cymariaethau rhyngddynt yn egluro pam fod Incwm Busnes Fferm yn gwahaniaethu rhwng y senarios.

- Mae'r cynnydd o 4 y cant mewn Incwm Busnes Fferm a welir o dan **Senario 1: Esblygiad** yn deillio o gynnydd mewn allbwn cynhyrchiant gwartheg yn sgil colli potensial allforio. Nid yw hyn yn cael ei wrthbwysu gan ostyngiad yng ngwerth defaid
- Mae'r gostyngiad o 84 y cant mewn Incwm Busnes Fferm o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog** yn deillio o gollu

taliadau Colofn I (£18,900 fesul busnes), sydd ddim yn cael ei gwrthbwysu gan gynnydd mewn taliadau Colofn II (o £1,700 i £4,900). Mae gostyngiad yng ngwerth allbwn cynhyrchiant a chynnydd bychan mewn costau sefydlog hefyd yn cael effaith, ond mae gostyngiadau mewn costau amrywiol yn gallu cynnig rhywfaint o gymorth gyda'r newidiadau hyn


- O dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae'r gostyngiad o 65 y cant yn Incwm Busnes Fferm yn deillio o gynnydd llai mewn cymorth Colofn II (o £1,700 i £2,500) sydd ddim yn gwrthbwysu'n llawn colli cymorth Colofn I. Mae gwerth allbwn cynhyrchiant yn cynyddu mewn perthynas â'r llinell sylfaen, ond mae'n debyg y bydd pwysau sylweddol ar ffermwyr llai effeithlon a gwasgedd ar faint fferm er mwyn lleihau costau. Gellir gweld graffiau sy'n dangos hyn yn yr Atodiad



Ffigur 15. Cydrannau y newidiadau i Incwm Busnes Fferm: Pori Ardaloedd Llai Ffaffriol yng Nghymru

Llaeth yng Nghymru


Llinell sylfaen Incwm Busnes Fferm yng Nghymru ar gyfer ffermydd llaeth arbenigol yw £60,600 (Ffigur 16). O dan **Senario 1: Esblygu**, mae hyn yn cynyddu 23 y cant i £74,800, o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog**, mae Incwm Busnes Fferm yn gostwng 27 y cant i £44,000, ac o dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae Incwm Busnes Fferm yn cynyddu 29 y cant i £78,300.



Ffigur 16. Effaith y senarios ar Incwm Busnes Fferm: Llaeth yng Nghymru

Mae Ffigur 17 yn dangos cydrannau Incwm Busnes Fferm ar gyfer pob senario a'r llinell sylfaen; mae'r cymariaethau rhyngddynt yn egluro pam fod Incwm Busnes Fferm yn gwahaniaethu rhwng y senarios.

- Mae'r cynnydd o 23 y cant mewn Incwm Busnes Fferm a welir o dan **Senario 1: Esblygu** yn cael ei yrru gan gynnydd yng ngwerth llaeth amrwd oherwydd cynnydd mewn costau mewnforio.
- Mae'r gostyngiad o 27 y cant mewn Incwm Busnes Fferm o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog** yn deillio'n bennaf o golli taliadau Colofn I (£21,400 fesul busnes), sydd ddim yn cael ei gwrthbwysu gan gynnydd mewn taliadau Colofn II (o £1,700 i £4,800). Mae cynnydd mewn costau amrywiol hefyd yn cael effaith, er bod gostyngiadau mewn costau sefydlog yn gwrthbwysu hyn.
- O dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae'r cynnydd o 29 y cant yn Incwm Busnes Fferm yn deillio o gynnydd llai mewn cymorth Colofn II (o £1,700 i £2,400) sydd ddim yn gwrthbwysu'n llawn colli cymorth Colofn I a chynnydd mewn costau amrywiol. Mae gwerth allbwn cynhyrchiant yn cynyddu £40,722 o'r llinell sylfaen oherwydd costau cynyddol mewnforion llaeth sy'n rhoi llai o bwysau ar brisiau domestig.




Ffigur 17. Cydrannau y newidiadau i Incwm Busnes Fferm: Llaeth yng Nghymru

Sectorau eraill

Cafodd y busnesau fferm a aseswyd yn **Senarios Brexit: asesiad effaith** eu datblygu gan ddefnyddio data o'r Arolwg Busnesau Fferm yn Lloegr. Mae llawer o'r mathau o ffermydd a amlinellwyd yn cynnig pwynt cychwyn perthnasol ar gyfer busnesau yng Nghymru er mwyn ceisio deall effeithiau posibl Brexit. Ceir manylion llawn yn **Senarios Brexit: asesiad effaith**, ond gweler y prif ganlyniadau isod.

Ŷd


Llinell sylfaen Incwm Busnes Fferm ar gyfer ffermydd ŷd yw £43,796 (Ffigur 18). O dan **Senario 1: Esblygu**, mae hyn yn gostwng 9 y cant i £39,788, o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog**, mae Incwm Busnes Fferm yn gostwng 81 y cant i £8,216, ac o dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**, mae Incwm Busnes Fferm yn mynd yn negyddol ar ôl gostwng 103 y cant i -£1,341.



Ffigur 18. Effaith y senarios ar Incwm Busnes Fferm: Ŷd

Cnydau cyffredinol


Mae Ffigur 19 yn dangos bod llinell sylfaen Incwm Busnes Fferm ar gyfer cynydau cyffredinol ⁴¹ yn £61,231. **O dan Senario 1: Esblygiad**, mae Incwm Busnes Fferm yn codi rhywfaint, ond mae Incwm Busnes Fferm yn gostwng i tua traean o'r lefel hon o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog**. Mae Incwm Busnes Fferm hefyd yn gostwng o dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle** ond dim ond i £24,710.



Ffigur 19. Effaith y senarios ar Incwm Busnes Fferm: Cnydau cyffredinol

Garddwriaeth

Mae garddwriaeth fel teitl yn cynnwys amrediad eang o gynnyrch. Felly, rydym wedi dewis cynydau penodol sy'n cynrychioli'r sector, yn cynnwys winws/nionod, tomatos a mefus. Lle'r oedd y data'n gyfyngedig, ceir manylion llawn ar gyfer modelu'r cynydau yn yr adroddiad technegol.⁴² Mae Ffigur 20 yn cymharu llinell sylfaen Incwm Busnes Fferm (£33,517) o dan y tri senario. Mae Incwm Busnes Fferm yn cynyddu tua £15,000 o dan **Senario 1: Esblygiad** ond mae'n gostwng o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog** a **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle** i £29,632 a £30,890, yn eu tro.




Ffigur 20. Effaith y senarios ar Incwm Busnes Fferm: Garddwriaeth

Moch

Mae Ffigur 21 yn dangos mai llinell sylfaen Incwm Busnes Fferm ar gyfer ffermydd moch yw £46,067. Mae hwn yn cynyddu o dan bob un o'r tri senario. Mae'n cynyddu i £68,708 o dan **Senario 1: Esblygiad**, i £57,418 o dan **Senario 2: Rhyddhau unochrog** ac i £205,354 o dan **Senario 3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle**.

Dylid nodi bod y fasnach cydbwysedd carcass yn bwysig iawn i'r sector moch, ac er bod prisiau uwch yn debygol o fod yn bosibl ar gyfer toriadau y mae galw amdanynt, gallai anallu i greu gwerth o doriadau lle nad oes galw mawr amdanynt yn ddomestig olygu bod y codiadau mewn prisiau a welir yma, a'r cynnydd mawr sy'n dilyn mewn Incwm Busnes Fferm, yn gostwng, o bosibl yn sylweddol.



Ffigur 21. Effaith y senarios ar Incwm Busnes Fferm: Moch

⁴¹ Daliannau lle mae cynydau â'r (yn cynnwys llysiâu ar raddfa cae) yn cyfrif am fwy na dwy ran o dair o'u cyfanswm allbwn safonol, ac eithrio daliannau sydd wedi'u dosbarthu fel yd; daliannau lle mae cymysgedd o gnydau â'r a garddwriaethol yn cyfrif am fwy na dwy ran o dair o'u hallbwn safonol, ac eithrio daliannau sydd wedi'u dosbarthu fel garddwriaeth; a daliannau lle mae cynydau â'r yn cyfrif am fwy nag un rhan o dair o'u cyfanswm allbwn safonol ac nad oes grŵp arall yn cyfrif am fwy na thraean.

⁴² Ar gael yn www.ahdb.org.uk/brexit

CAU PEN Y MWDWL

Mae'n amlwg bod llawer o ansicrwydd ynghylch Brexit o du'r sector amaethyddol a'r gadwyn cyflenwi bwyd ehangach. Er nad ydym yn gwybod y manylion i gyd eto, gallwn adnabod y meysydd lle bydd Cymru yn fwy agored ac yn llai agored i heriau Brexit o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU.

Mae'r dadansoddiad o'r senarios yn amlygu y gallai Brexit arwain at newid sylweddol, sy'n dangos bod rhaid i ffermwyr a thyfwyr cynyddu, yn ogystal â rhannau eraill o'r gadwyn gyflenwi, ddechrau paratoi ar gyfer Brexit nawr. Er bod llawer o'r ffactorau sy'n ymwneud â Brexit y tu hwnt i reolaeth y ffermwr, gellir cymryd rhai camau er mwyn paratoi.

O ran masnach ryngwladol

Bydd Brexit yn esgor ar risgiau a chyfleoedd i amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru. Yn y tymor byr, bydd natur dyfodol y berthynas fasnach rhwng y DU a'r UE yn fater allweddol. O ganlyniad i lefel is o allforion yr UE, bydd amaethyddiaeth yng Nghymru yn llai agored i'r risg hon na rhannau eraill o'r DU.

Serch hynny, mae'n glir y bydd hyn yn dal yn effeithio ar y diwydiant ac mae rhyngddibyniaeth amlwg gyda'r sector amaeth-bwyd mewn llefydd eraill yn y DU, gyda mwy o anghydfod masnachu rhwng y DU a'r UE yn rhoi hwb i incymau ffermwyr mewn rhai sectorau (llaeth a moch yn benodol) ond yn rhoi pwysau ychwanegol mewn sectorau eraill (megis ŷd a defaid).

O ran cymorth amaethyddol:

Mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod cymorthdaliadau yn elfen bwysig i gynnal incwm busnes fferm i lawer o fusnesau. Nid yw'r glir sut bydd polisi amaethyddol yn newid ar ôl Brexit, ond mae'n debyg y bydd mwy o graffu ar y diwydiant, gan edrych i ba raddau y mae amaethyddiaeth yn darparu budd i'r cyhoedd am yr arian cyhoeddus a roddir i'r diwydiant. Byddai amaethyddiaeth yng Nghymru yn fwy agored i unrhyw ostyngiadau mewn lefelau o gymorth, oherwydd bod y cymorth hwnnw'n cyfrannu cyfran uwch at incwm busnes ffermydd. Bydd penderfyniadau yn y dyfodol am lefel cyllidebau amaethyddol a sut bydd y cyllid hwn yn cael ei ddosbarthu yn hollbwysig.



PECYN CYMORTH

A yw eich busnes chi'n barod ar gyfer Brexit?

Mae'r holiadur canlynol yn cynnwys deg cwestiwn sy'n cyfeirio at agweddau gwahanol o ymarfer. Ar bob cwestiwn, rhwng sgôr i chi'ch hun rhwng 1 a 5, lle mae 1 yn golygu - na dim o gwbl, a 5 - ydw dwi'n gwneud hyn. Byddwch yn onest: bydd deall eich cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn helpu chi i fanteisio ar gyfleoedd i wella cadernid eich busnes.

Adolygu busnes y fferm:

1 Oes gan berchnogion y busnes weledigaeth glir ac amcanion cysylltiedig?

1 2 3 4 5

2 Oes gennych chi gynllun olyniaeth clir ar waith ac ydych chi wedi cyfleu hyn wrth y bobl berthnasol? Os na, oes gennych chi gynllun ymadael?

1 2 3 4 5

3 A yw'r bobl sy'n rheoli'r busnes yn cyfarfod yn rheolaidd (ee bob 3-6 mis) i daro golwg ar y busnes ac i drafod amcanion, perfformiad ac ati?

1 2 3 4 5

4 A yw'r busnes wedi asesu mentrau eraill sy'n gysylltiedig â ffermio neu ddim yn gysylltiedig â ffermio y gellid eu rhoi ar waith yn y dyfodol?

1 2 3 4 5

Elw a pherfformiad:

5 Oes gan y busnes afael ddigonol ar gostau cynhyrchiant ac a yw'n gwybod lle gellid gwneud gwelliannau?

1 2 3 4 5

6 Ydych chi wedi ystyried a phrofi cynllun 5 mlynedd i ddeall eich incwm, eich treuliau yn y tymor hirach a'ch gallu i fodloni disgwyliadau partneriaid y fferm

1 2 3 4 5

Cynllunio ar gyfer senario Brexit

7 Os yw'r taliadau uniongyrchol yn gostwng/diflannu, ydych chi'n deall yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar hyfywedd y busnes? Mewn senario o'r fath, a oes gan y busnes gynllun i fynd i'r afael â hyn?

1 2 3 4 5

Perfformiad fferm unigol – newid technegol

8 A yw'r busnes wedi ystyried ac archwilio'r posibilrwydd o gydweithio â busnesau lleol eraill?

1 2 3 4 5

9 A yw'r busnes yn profi syniadau/datblygiadau arloesol newydd ee drwy gymharu prosesau rhannu caeau a grwpiau trafod?

1 2 3 4 5

Manteisio i'r eithaf ar y farchnad

10 Ydych chi'n gwybod beth yw tueddiadau'r bobl sy'n bwyta/defnyddio eich cynnyrch?

1 2 3 4 5

Eich sgôr

	Sgôr meincnod	Eich sgôr
Adolygu Busnes y Fferm	12	
Elw a Pherfformiad	6	
Cynllunio ar gyfer senario Brexit	3	
Perfformiad fferm unigol – newid technegol	6	
Manteisio i'r eithaf ar y farchnad	3	

Os yw eich sgôr o dan y meincnod, beth am daro golwg ar rai o'r adnoddau dros y dudalen.

Adnoddau i ffermwyr

Gall yr adnoddau isod eich helpu i baratoi ar gyfer Brexit.

Mae croeso i chi gysylltu neu fynd i wefannau AHDB, HCC neu Cyswllt Ffermio i gael gwybodaeth neu i glywed am ddigwyddiadau sydd wedi'u trefnu.

Adolygu Busnes y Fferm

Adnodd	Beth?	Ble?
Cyswllt Ffermio	Canllaw i gynllunio busnes, cymorthfeydd un-i-un, gwasanaeth cynghori, mesur ar gyfer rheoli, a grwpiau trafod	businesswales.gov.wales/ farmingconnect 08456 000 813
Gweminar llunio strategaeth	Gweminar sy'n cyflwyno rhai o'r risgiau a wynebwr gan ein busnesau a sut gallem liniaru'r risgiau hynny, yn ogystal ag edrych ar eich busnes o ran rhoi gweledigaeth a strategaeth ar waith	Gweminar: www.youtube.com/ watch?v=LIKNxDY-Yu4 Tafleni gwaith: dairy.ahdb.org.uk/planning-wheel dairy.ahdb.org.uk/risk-management dairy.ahdb.org.uk/risk-register

Elw a pherfformiad

Adnodd	Beth?	Ble?
Farmbench for Beef, Lamb, Potatoes, Cereals and Oilseeds	Mae Farmbench yn eich helpu i ddeall a chymharu eich costau cynhyrchu llawn ar lefel y fenter a'r fferm gyfan.	farmbench.ahdb.org.uk 07815 600240
Templed cyfrif elw a cholled	Templed cyfrif elw a cholled; mae'n disgrifio trafodion ariannol y busnes a'r elw (neu'r golled) a wnaed dros y cyfnod masnachu hwnnw.	dairy.ahdb.org.uk/account-template
Templed llif arian gyda chyfrifiannell TAW	Templed ar gyfer taenlen llif arian; ffordd dda o ddangos uchafbwyntiau ac isafbwyntiau a ragwelir yn y dyfodol o ran arian yn dod i mewn i'r busnes a'r costau y bydd rhaid i'r busnes eu talu dros y cyfnod hwnnw.	dairy.ahdb.org.uk/cashflow-cal

Cynllunio ar gyfer senario Brexit

Adnodd	Beth?	Ble?
Offeryn penderfynu ar Ôl-troed Carbon Cnydau	Cyfrifo ôl-troed carbon cnwd penodol	cereals.ahdb.org.uk/carbon-footprinting-tool
Stocktake What If for Beef and Lamb	Defnyddiwch y llithryddion neu teipiwrch rif yn y blychau i addasu eich ffigwr sylfaenol er mwyn llunio senario, hynny yw i weld yr effaith ar Elw Gros petai cost porthiant yn cynyddu.	beefandlamb.ahdb.org.uk/returns/tools/stocktake-lite
Offeryn Penderfyniadau am Laeth	Dyma goeden penderfyniadau i'ch helpu i bwysu a mesur y dewisiadau i chi a'ch busnes. Mae'n cynnwys cyfres o gwestiynau i'w hateb a bydd yr atebion naill ai'n mynd â chi i'r cam nesaf neu'n cynnig gwybodaeth a chymorth mewn meysydd penodol. Bydd y goeden penderfyniadau hefyd yn cynnig dewisiadau i'ch busnes sydd ddim yn ymwneud â'r diwydiant llaeth na'r diwydiant amaeth hyd yn oed.	dairy.ahdb.org.uk/business-decisions

Perfformiad fferm unigol – newid technegol


Adnodd	Beth?	Ble?
Cyfrifiannell KPI Cig Eidion a Chig Oen	Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) hyn wedi'u llunio i helpu cynhyrchwyr gasglu mesuriadau allweddol ac i adnabod cryfderau a gwendidau ym mherfformiad y fuches neu'r ddiadell.	beefandlamb.ahdb.org.uk/returns/tools/kpi-calculators
Offeryn Meincnodi KPI Llaeth	Mae'r gyfrifiannell ar-lein hon yn galluogi ffermwyr llaeth i gymharu eu ffigurau perfformiad ac ariannol â'r meincnodau. Mae'r gyfrifiannell KPI yn dadansoddi'r mesurau'n ddau faes: <ul style="list-style-type: none"> • Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer systemau AYR a systemau lloia mewn bloc • Tri mesur busnes allweddol y dylai pob busnes fod yn ymwybodol ohonynt, eu deall a meincnodi eu perfformiad yn eu herbyn, yn cynnwys costau cynhyrchu economaidd llawn. 	dairy.ahdb.org.uk/kpi-calculator

Manteisio i'r eithaf ar y farchnad


Adnodd	Beth?	Ble?
Rhith Raglenni cig oen a chig eidion	Mae'r Rhith Raglen Gwell Canlyniadau (Better Returns Programme) yn egluro'r neges ddewis drwy ddefnyddio technegau diddymu. Maent yn galluogi cynhyrchwyr i weld darlun ar gyfrifiadur o newid yng nghyfansoddiad anifail a'r dosbarth braster o bob ongl. Mae'r rhaglenni hefyd yn cynnig cyngor i gynhyrchwyr ar doriadau carcass gwahanol, data am gynnyrch, a nifer o bynciau eraill sy'n ymwneud â dewis.	beefandlamb.ahdb.org.uk/returns/tools/virtual-beef-lamb-programmes
Cyfrifiannell pris llaeth	Gallwch ddefnyddio'r gyfrifiannell i'ch helpu i gael y pris gorau am eich llaeth. Drwy gyflwyno data penodol am y fferm, mae'n cynnig syniadau ar gyfer gwneud newidiadau i gael mwy o werth o'ch llaeth ar eich contract presennol.	dairy.ahdb.org.uk/milk-calculator
Rhaglen Hyfforddi ar Ddewis Gwartheg a Defaid i'w Lladd	Mae'r digwyddiadau hyfforddi hyn yn rhad ac am ddim ac yn darparu arddangosfeydd ymarferol a phrofiad ymarferol mewn lladd-dy, drwy asesu anifeiliaid byw ac asesu carcass. Cynhelir pob digwyddiad mewn lladd-dy gyda hyd at ddwsin o ffermwyr ar bob cwrs. Ceir manylion manwl ar bwyntiau trin a ffactorau i'w hystyried wrth ddewis gwartheg a defaid i'w lladd.	hccmpw.org.uk/farming/carcass_selection1 Cysylltwch â HCC ar 01970 625050
Bwletin y Farchnad HCC	Yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am brisiau marchnadoedd da byw ar gyfer defaid, gwartheg a moch, mae'r Bwletinau misol yn dadansoddi'r tueddiadau y tu ôl i'r penawdau ariannol er mwyn helpu i gynllunio busnes. Mae'r rhain yn cynnwys patrymau am y galw gan ddefnyddwyr, y llif drwy'r lladd-dai a data mewnforio ac allforio.	http://welsh.hccmpw.org.uk/publications/corporate/market_bulletins1

ATODIAD


■ Llinell Sylfaen ■ S1: Esblygiad ■ S2: UL ■ S3: Y Deyrnas Unedig fel Cadarnle




Llaeth yng Nghymru - Newidiadau i Incwm Busnes Fferm yn ôl maint fferm a pherfformiad



Ardaloedd dan Anfantais Sylweddol: Defaid yng Nghymru - Newidiadau i Incwm Busnes Fferm yn ôl maint fferm a pherfformiad



Pori Ardaloedd Llai Ffatriol - Newidiadau i Incwm Busnes Fferm yn ôl maint fferm a pherfformiad



Ardaloedd dan Anfantais Sylweddol: Defaid yng Nghymru - Newidiadau i Incwm Busnes Fferm yn ôl maint fferm a pherfformiad

AWDURON



David Swales
Pennaeth Mewnwelediad
Strategol david.swales@
ahdb.org.uk 024 7647 8854



John Richards
Rheolwr Datblygu Diwydiant
jrichards@hccmpw.org.uk



Dylan Bradley
Agra CEAS Consulting



Abigail Scofield
Dadansoddwr AHDB

Cynhyrchwyd i chi gan:

AHDB

Stoneleigh Park
Kenilworth
Swydd Warwick
CV8 2TL

Ffôn 024 7669 2051

E comms@ahdb.org.uk

W ahdb.org.uk

🐦 @TheAHDB

Os nad ydych chi am gael y wybodaeth hon mwyach, anfonwch e-bost i comms@ahdb.org.uk

Mae pob nod masnach, logo ac enw brand arall yn y cyhoeddiad hwn yn nodau masnach i'w deiliaid perthnasol. Ni roddir unrhyw hawliau heb ganiatâd ysgrifenedig y perchnogion perthnasol ymlaen llaw.

Mae'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg mynd i'r wasg, ond ni roddir gwarant a hynny, ac i'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid yw'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros gollod, anaf neu ddifrod sut bynnag yr achosir hynny (yn cynnwys drwy esgeulustod) neu a ddiodefwyd yn uniongyrchol mewn perthynas â gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys neu ei heithrio o'r ddogfen hon.

© Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth 2018.
Cedwir pob hawl.

